Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB A THLODI

Cyflwyniad

Dydy tlodi **ddim** yn 'nodwedd warchodedig' yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Penderfynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig na fyddai'n dod â Rhan 1 o'r Ddeddf i rym, sef Rhan a fyddai'n gosod 'dyletswydd cydraddoldeb sosio-economaidd' ar y sector cyhoeddus.

Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2013 yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu targedu adnoddau ar draws adrannau i atal tlodi a lliniaru ei effeithiau ar fywydau pobl. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo yn ddiweddar i archwilio'r posibilrwydd o weithredu dyletswydd cydraddoldeb sosio-economaidd. Yn anffodus, dydy'r naill na'r llall o'r sbardunau strategol yma yn cyfeirio'n benodol at bobl hŷn.

Y materion

Mae dros 100,000 o bensiynwyr yn byw mewn tlodi yng Nghymru ac mae tua 20% o bobl hŷn, a phobl sengl yn enwedig, yn byw o dan ffin tlodi. Mae tua 80,000 o bensiynwyr yn dibynnu ar bensiwn y wladwriaeth a budd-daliadau eraill fel eu hunig ffynhonnell incwm. Mae 42% o deuluoedd pensiynwyr yn dioddef tlodi tanwydd (lle mae 10% neu fwy o'r incwm blynyddol yn talu am wresogi).

Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi amlygu bod y gostyngiad mewn tlodi pensiynwyr yng Nghymru wedi bod hanner y raddfa a welwyd yn yr Alban dros y degawd diwethaf. Ym 1977, roedd 54% o bobl hŷn yn y tri grŵp isaf o ddosbarthiad incwm y Deyrnas Unedig ac yn 2011 roedd hyn yn 26%. Yn y trydydd grŵp, cynyddodd y ganran o bobl hŷn oedd yn cael eu cynrychioli o 8% ym 1977 i 23% yn 2011.

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (SYG) yn 2011 yn dangos os nad oes gan bobl hŷn bensiwn preifat nac incwm arall yna mae ganddyn nhw 60% o siawns o fod yn y ddau grŵp incwm isaf. Mae'r SYG yn datgan mai pobl sengl heb bensiwn preifat ydy'r rhai sydd leiaf tebygol o fod yn y ddau grŵp incwm uchaf ac mai cyplau heb bensiwn preifat oedd y mwyaf tebygol o fod yn y ddau grŵp isaf. Un ffactor amddiffynnol o ran codi pobl hŷn allan o'r ddau grŵp isaf oedd petai ganddyn nhw gynilion o £20k o leiaf.

Mae astudiaeth yr SYG hefyd yn dadlau bod dwy ran o dair o fenywod hŷn (60+ oed) yn byw mewn tlodi cymharol. Y rheswm dros hyn ydy bod yna fwy o fenywod hŷn na dynion a bod gan fenywod hŷn lefelau incwm is. Mae yna nifer o ffactorau'n cyfrannu at hyn: y bwlch cyflog rhyw yn ystod bywyd gwaith, a thoriadau mewn cyfraniadau pensiwn oherwydd cyfrifoldebau gofal, ynghyd â'r ffaith bod menywod hŷn yn aml yn weddwon a bod lefel pensiwn galwedigaethol i weddw ar y cyfan yn ddim ond hanner lefel y pensiwn yr oedd y cwpl yn ei gael pan oedd y gŵr yn fyw.

Mae bod yn sengl, bod yn fenyw a bod hen bensiwn preifat yn ddangosyddion cryf bod person yn debycach o fod mewn tlodi pan fydd yn hŷn. Y cyplau lle mae un partner wedi ymddeol ac un yn gweithio sydd debycaf o fod yn y grŵp uchaf o ran dosbarthiad incwm.

Casgliad

Mae yna lawer o ffactorau a all gyfuno i achosi tlodi yn ddiweddarach yn eich bywyd. Yn anffodus, yn aml dydy graddau a natur profiad pobl hŷn o dlodi ddim yn cael eu gwerthfawrogi gan lywodraeth y Deyrnas Unedig na'r llywodraethau datganoledig chwaith. Hyd nes y byddwn yn mynd i'r afael â'r camsyniad bod pobl hŷn yn imiwn i heriau'r hinsawdd economaidd gyfredol a rhaglen Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ddiwygiadau lles, bydd llawer o bobl hŷn yn dal mewn perygl sylweddol o fyw eu blynyddoedd hŷn wedi'u heithrio ac yn dioddef effeithiau amddifadedd cymdeithasol.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i www.olderpeoplewales.com